# Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol

# ADRODDIAD BLYNYDDOL GWYNEDD Medi 2010 – Awst 2011

Pennaeth Gwasanaeth Ysgolion : Dewi Jones

**CYNNWYS**

**ADRAN 1: CRYNODEB GWEITHREDOL**

1.1 Rhagair gan Gadeirydd CYSAG

Cadeirydd CYSAG Gwynedd
Cynghorydd Huw Edwards

**ADRAN 2: CYNGOR I AWDURDOD ADDYSG GWYNEDD**

2.1 Swyddogaeth CYSAG Mewn Perthynas ag Addysg Grefyddol
2.2 Y Maes Llafur Cytûn
2.3 Monitro safonau Addysg Grefyddol
2.4 Y drefn hunan arfarnu
2.5 Deilliannau mewn addysg grefyddol yn y sector uwchradd
2.6 Ymateb yr Awdurdod Addysg Lleol
2.7 Addysg Grefyddol ac APADGOS
2.8 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd

**ADRAN 3: ATODIADAU**

3.1 Gwybodaeth gyffredinol am gyfansoddiad CYSAG
3.2 Aelodaeth CYSAG Gwynedd 2010-11
3.3 Cyfarfodydd CYSAG a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod adrodd
3.4 Rhestr o'r sefydliadau a dderbyniodd gopi o adroddiad
3.5 Templed CYSAG Gwynedd ar gyfer hunan arfarniad ysgolion o safonau addysg grefyddol
3.6 Canllawiau ar gyfer dadansoddi tablau data arholiadau allanol

**ADRAN 1:**
**CRYNODEB GWEITHREDOL**

**Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addysg Grefyddol**

Ceir amlinelliad clir o swyddogaeth CYSAG yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig.

Mae CYSAG yn cynghori'r Awdurdod Addysg ar faterion yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd, ac y mae'n gyfrifol am sefydlu cynulliad achlysurol, Cynhadledd Maes Llafur Cytûn, i gynhyrchu neu ystyried diwygio Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.

## 1.1 Rhagarweiniad gan y Cadeirydd

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol CYSAG Gwynedd ar gyfer y flwyddyn academaidd 2010-2011. Yn ystod y flwyddyn bu i CYSAG gynghori'r Adran Addysg ar nifer o faterion gan gynnwys Y Maes Llafur Cytûn, Safonau Addysg Grefyddol, Hyfforddiant Mewn Swydd ac Addoli ar y Cyd.

Mae CYSAG Gwynedd hefyd wedi monitro'r hyn sydd wedi digwydd mewn ysgolion, ac wedi cefnogi gweithgareddau cymdeithasau cenedlaethol megis APADGOS a Chymdeithas CYSAGau Cymru.

Hoffwn dalu teyrnged i holl aelodau CYSAG Gwynedd, a nifer o swyddogion gan gynnwys Bethan James, Glynda O'Brien a Ken Robinson am eu hymroddiad a'u cymorth yn ystod y flwyddyn. Hoffwn hefyd ddiolch i gynrychiolwyr yr holl enwadau, undebau a'r grwpiau gwleidyddol wrth iddynt gyflawni eu cyfrifoldebau, a hyderaf y bydd y gwaith trylwyr a'r ymrwymiad yn parhau yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Cynghorydd Huw Edwards

Cadeirydd CYSAG Gwynedd, 2010/2011

## ADRAN 2: CYNGOR I AWDURDOD ADDYSG GWYNEDD

### 2.1 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addysg Grefyddol

Ceir amlinelliad clir o swyddogaeth CYSAG yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig.

Mae CYSAG yn cynghori'r Awdurdod Addysg ar faterion yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd, ac y mae'n gyfrifol am sefydlu cynulliad achlysurol, Cynhadledd Maes Llafur Cytûn, i gynhyrchu neu ystyried diwygio Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.

### 2.2 Y Maes Llafur Cytûn

Mae ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion arbennig yn dilyn Maes Llafur Cytûn Gwynedd a Môn (2008). Hyrwyddir y ddogfen yn ystod cyfnodau hyfforddiant mewn swydd ac ar ymweliadau i ysgolion. Datblygir deunyddiau i gefnogi'r Maes Llafur Cytûn fel rhan o'r rhaglen hyfforddi.

### 2.3 Monitro safonau Addysg Grefyddol

Prif swyddogaeth CYSAG yw, 'cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda'. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1) (a).

Yn y gorffennol mae CYSAG Gwynedd wedi monitro addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- adolygu adroddiadau arolygiadau ESTYN;
- ddadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- dderbyn crynodeb o hunan arfarniadau ysgolion mewn ymateb i gwestiynau allweddol Fframwaith arolygu ESTYN;
- dderbyn adroddiadau rheolaidd gan gynrychiolwyr y gwasanaeth ymgynghorol CYNNAL;
- wahodd athrawon a phenaethiaid i rannu enghreifftiau o arferion da.

Ni fydd Fframwaith Arolygu newydd ESTYN (2010) bellach yn cyfeirio'n benodol at Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd. Yn dilyn cyfnod o ymgynghori gyda grwpiau penaethiaid a swyddogion addysg, penderfynwyd y byddai CYSAG yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunan arfarniad o Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd gyda'r aelodau. Gofynnir i ysgolion cynradd ac uwchradd gyflwyno crynodeb o hunan arfarniad yr ysgol i sylw clerc CYSAG Gwynedd yn ystod y flwydd pan fydd ESTYN yn arolygu'r ysgol.

Ers 2008, mae CYSAGau ar draws Cymru wedi mabwysiadu neu addasu'r Fframwaith enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (APADGOS, 2008) fel eu maes llafur cytûn lleol. Mae aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol wedi croesawu'r cysondeb

hwn ar draws Cymru gan eu bod wedi gallu cydweithio i baratoi canllawiau cyffredin i ysgolion a ChYSAGau. Mae amryw o GYSAGau yng Nghymru wedi mabwysiadu cyfundrefn neu broses monitro yn debyg i'r un a ddefnyddir gan GYSAG Gwynedd.

### 2.3.1 Adroddiadau Arolygu ESTYN (cyn Medi 2010)

Yn ystod tymor yr Hydref, cyflwynwyd 7 o adroddiadau arolygwyr ar ysgolion yng Ngwynedd. Roedd y rhain yn ymateb i'r hen Fframwaith Arolygu, a chyflwynwyd y rhannau canlynol o bob adroddiad i sylw CYSAG:

- enw'r ysgol
- enw'r tîm arolygu
- y cyfeiriad at Ddatblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol y disgyblion fel ymateb yr ysgol a'r tîm arolygu i Gwestiwn allweddol 3: *Pa mor dda mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?*
- yr adroddiad ar Addysg Grefyddol (os yn briodol) fel ymateb yr ysgol a'r tîm arolygu i gwestiwn allweddol 1: *Pam mor dda mae'r dysgwyr yn cyflawni?*
- unrhyw fater allweddol perthnasol

| Nifer yr adroddiadau a dderbyniwyd: | cynradd | 6 |
|---|---|---|
| | uwchradd | 1 |

### Addysg Grefyddol: Cwestiwn allweddol 1: Pa mor dda mae'r dysgwyr yn cyflawni?

Arolygwyd Addysg Grefyddol fel pwnc penodol mewn 5 ysgol gynradd.

| | **Gradd 1** Da gyda nodweddion rhagorol | **Gradd 2** Nodweddion da a dim diffygion pwysig | **Gradd 3** Nodweddion da yn gorbwyso diffygion | **Gradd 4** Rhai nodweddion da ond diffygion mewn meysydd pwysig | **Gradd 5** Llawer o ddiffygion pwysig |
|---|---|---|---|---|---|
| **CA1** | 1 | 3 | 1 | | |
| **CA2** | | 4 | 1 | | |
| **Cyfanswm** | 1 | 7 | 2 | | |

Roedd yr arolygiadau yn dilyn y drefn arferol o gyfeirio at nodweddion da a rhagorol ac at ddiffygion. Ym mhob achos roedd y nodweddion da yn llawer mwy sylweddol na'r rhestr o ddiffygion. Mewn tair ysgol nodwyd nad oedd unrhyw ddiffygion arwyddocaol. Anfonwyd llythyr yn enw'r CYSAG yn llongyfarch yr ysgolion am y gwaith da o fewn y maes.

Amlygwyd cryfderau mewn nifer o ysgolion:

<u>Nodweddion da</u> (mwyafrif o ysgolion)

- Mae gan fwyafrif o'r disgyblion ysbryd ymchwilgar ac maent yn teimlo'n hyderus i god cwestiynau o'u profiad personol.

- Mae sgiliau dysgwyr ar draws y ddau gyfnod allweddol yn rhagorol wrth fynegi barn.
- Datblygant ddealltwriaeth dda o draddodiadau diwylliannol a chrefyddol Cymru. Mae ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth dda am ddefodau, gwyliau ac arferion Cristnogol ac maent yn gyfarwydd iawn â nifer o hanesion y Beibl.
- Wrth ymweld â lleoedd addoli yn yr ardal, datblyga'r holl ddysgwyr ddealltwriaeth dda o arwyddocâd y rif nodweddion a berthyn i adeiladau crefyddol. Dangosant ymwybyddiaeth dda o rai o'r seremonïau arbennig a gynhelir mewn lleoedd o'r fath, megis bedydd a phriodas.
- Mae'r dysgwyr yn datblygu medrau ymresymu a dysgu trwy gyfrwng eu hastudiaeth bellach o grefyddau'r byd, ac maent yn agored eu meddwl a chadarnhaol tuag at bobl sydd â chredoau gwahanol. Maent yn meddwl yn dda am faterion crefyddol a materion cyffredinol sy'n codi o ddydd i ddydd. Arddangosant fedrau ymresymu a chyfathrebu da iawn o fewn grwpiau.
- Meddant ar ysbryd ymchwilgar y chwilfrydig ac maent yn trafod crefyddau ac arteffactau'n frwdfrydig a byrlymes gan fynegi barn synhwyrol.
- Mae mwyafrif disgyblion yn datblygu'n dda eu dealltwriaeth o gysyniadau megis yr hunan, teimladau, maddeuant a chyfeillgarwch.
- Maent yn meddwl yn dda am faterion crefyddol a materion cyffredinol sy'n codi o ddydd i ddydd. Arddangosant fedrau ymresymu a chyfathrebu da iawn o fewn grwpiau. Dangosant ddealltwriaeth aeddfed o'r gwahaniaeth rhwng da a drwg a beth yw ystyr ac effaith temtasiwn.

Diffygion (un ysgol)

- Nid yw ymwybyddiaeth disgyblion o grefyddau'r byd wedi'i ddatblygu'n ddigonol.
- Mae gallu disgyblion i drafod mynegi barn ar straeon sanctaidd, yn ogystal â thrafod materion megis cariad, maddeuant a chydwybod yn gyfyngedig.

Fel mater o drefn, rhoddir sylw i'r diffygion a nodir gan yr ysgol a gan swyddogion addysg y sir a'r ymgynghorydd dyniaethau (CYNNAL). Os ydynt yn amlygu'u hunain mewn nifer o ysgolion yna mae'r hyn a nodir yn cael dylanwad ar gynnwys y rhaglen hyfforddiant mewn swydd. Os yw'r arolygiad yn nodi bod safonau yn anfoddhaol bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu ôl arolygiad ac yn derbyn cefnogaeth ychwanegol gan y gwasanaeth ymgynghorol.

## Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol (cyn Medi 2010)

**Cwestiwn allweddol 3: Pa mor dda mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?**

Mae pob tîm arolygu yn adrodd ar ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Cyflwynwyd yr adrannau perthnasol o adroddiadau 6 ysgol gynradd i sylw aelodau CYSAG.

| | **Gradd 1** Da gyda nodweddion rhagorol | **Gradd 2** Nodweddion da a dim diffygion pwysig | **Gradd 3** Nodweddion da yn gorbwyso diffygion | **Gradd 4** Rhai nodweddion da ond diffygion mewn meysydd pwysig | **Gradd 5** Llawer o ddiffygion pwysig |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgolion cynradd** | 3 | 3 | | | |
| **Cyfanswm** | 3 | 3 | | | |

Roedd y cyfnodau addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol.

Rhai o'r cryfderau a amlygwyd mewn nifer o ysgolion oedd:

- Bod gan yr ysgolion amcanion clir o ran datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol y dysgwyr.
- Bod y staff yn hybu datblygiad ysbrydol y disgyblion yn rhagorol trwy wersi Addysg Grefyddol a thrwy addoliadau ar y cyd bywiog a diddorol.
- Bod y sesiynau addoli ar y cyd yn cynnig cyfleoedd arbennig o dda i ddysgwyr fyfyrio'n dawel a meddylgar ar faterion pwysig sy'n effeithio ar eu bywydau.
- Bod disgyblion ac aelodau o'r gymuned yn gwneud cyfraniadau effeithiol i'r addoli.
- Bod gan ysgolion gysylltiadau da gyda chymunedau crefyddol lleol.

## 2.3.2 Adroddiadau arolygu ESTYN (Fframwaith Arolygu Newydd)

Ers Medi 2010, mae'r trefniadau arolygu yn canolbwyntio ar dri chwestiwn allweddol:

- **Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
- **Cwestiwn Allweddol 2: Pam for dda yw'r ddarpariaeth?**
- **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Arolygwyd 14 ysgol gynradd ac 1 ysgol uwchradd dan y drefn arolygu newydd. Nid yw'r adroddiadau arolygu yn cyfeirio at bynciau penodol ac ni chyflwynwyd ar adroddiadau i sylw CYSAG Gwynedd yn ystod 2010-11.

## 2.4 Y drefn hunan arfarnu

Mae Cwmni Cynnal wedi llunio canllawiau a phatrymlun ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd sydd yn cynnig arweiniad i benaethiaid ac athrawon ar sut i fynd ati i gynnal ymarferiad hunan arfarnu a'r math o feini prawf dylent fod yn mesur eu hunain yn eu herbyn. Cyflwynir canllawiau ar gyfer arsylwi mewn gwersi, arfarnu samplau o waith dysgwyr, dadansoddi data, dod i farn ar safonau sgiliau trawsgwricwlaidd, ac ar drafod â disgyblion. Cyfeirir athrawon hefyd at y tri chwestiwn sy'n sail i drefn arolygu ESTYN:

1. Pa mor dda yw'r deilliannau?
2. Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
3. Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a rheolaeth?

Penderfynwyd yng nghyfarfod 23 Chwefror 2005 y byddai CYSAG Gwynedd yn derbyn copi o hunan arfarniad ysgolion sydd yn derbyn arolygiadau pan nad oes adroddiad penodol ar Addysg Grefyddol, yn y flwyddyn pan arolygir yr ysgol. Cadarnhawyd yng nghyfarfod 9 Chwefror y byddai CYSAG Gwynedd yn parhau i dderbyn copi o hunan arfarniad ysgolion yn ystod y flwyddyn pan arolygir yr ysgolion. Mae CYSAG Gwynedd a phenaethiaid ysgolion Gwynedd wedi cymeradwyo'r

templed newydd a luniwyd mewn ymateb i'r Fframwaith Arolygu Newydd (gweler Atodiad 3.5). Bydd Mr Ken Robinson, clerc CYSAG Gwynedd a swyddog addysg Awdurdod Addysg Gwynedd yn gyfrifol am ddosbarth a chasglu'r hunan arfarniadau.

Derbyniwyd 6 adroddiad hunan arfarniad yn ystod y flwyddyn: uwchradd 1
cynradd 5

Roedd un adroddiad yn seiliedig ar y drefn hunan arfarnu blaenorol. Mae'r adroddiad newydd yn nodi hunan arfarniad yr ysgol mewn ymateb i gwestiwn allweddol 1 a 2 o'r fframwaith arolygu newydd. Mae'r ysgolion yn cyflwyno barn gryno am brif gryfderau cyflawniad y dysgwyr ac yn nodi'r agweddau fydd yn derbyn sylw dros y ddwy flynedd nesaf. Maent hefyd yn cyflwyno barn gryno am ansawdd y ddarpariaeth mewn addysg grefyddol ac addoli ar y cyd. Yn sgil y broses o hunan arfarnu safonau, dyfarnodd yr ysgolion y graddau isod:

| | **Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?** | | | | **Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol** | | | | **Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn addoli ar y cyd?** | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhagorol | Da | Digonol | Anfoddhaol | Rhagorol | Da | Digonol | Anfoddhaol | Rhagorol | Da | Digonol | Anfoddhaol |
| **Cynradd** | 1 | 4 | | | 1 | 4 | | | 2 | 3 | | |
| **Uwchradd** | | 1 | | | | 1 | | | | 1 | | |
| **Cyfanswm** | 1 | 5 | | | 1 | 5 | | | 2 | 4 | | |

## Pa mor dda yw'r deilliannau mewn addysg grefyddol?

Roedd yr ysgolion yn ymfalchïo mewn rhai agweddau megis:

- Bod gan y dysgwyr wybodaeth a dealltwriaeth dda o arferion a dathliadau Cristnogaeth. Mae eu hymwybyddiaeth o storiâu crefyddol ac o nodweddion a defnydd addoldai yn dda.
- Bod safonau llythrennedd a chyfathrebu da yn amlwg wrth i ddysgwyr ymateb i faterion crefyddol.
- Mwynhad y gwersi wrth i'r dysgwyr gael cyfle i leisio'u barn.
- Bod athrawon a disgyblion yn cyd gynllunio cwestiynau allweddol ar gyfer y dysgu.
- Bod canran gyson dda o ddisgyblion yn cyrraedd L5+ ar ddiwedd Bl 9.
- Bod addysg Grefyddol yn rhan o'r craidd dysgu ar gyfer pob disgybl yn CA4 wrth iddynt hwy ddilyn y Fagloriaeth Gymreig.
- Bod yr holl wersi addysg Grefyddol a arsylwyd yn radd 2 neu well.

Ymhlith yr agweddau fydd yn derbyn sylw yn ystod y ddwy flwyddyn nesaf mae:

- parhau i ymgyfarwyddo â gofynion y Maes Llafur Cytûn Lleol a'r canllawiau Addysg Grefyddol a dosbarthwyd gan APADGOS.
- cyflwyno gweithgareddau a phrofiadau i blant y Cyfnod Sylfaen fel eu bod yn cael cyfleoedd i ymateb yn bersonol i sefyllfaoedd moesol dychmygol gan roi rhesymau dros y penderfyniadau a wneir.
- datblygu sgiliau ymchwilio annibynnol y dysgwyr, gan ddefnyddio addysg grefyddol fel cyd-destun.
- modelu cwestiynau a chwestiynu mwy pen agored i'r disgyblion a'u hannog i'w defnyddio mewn trafodaethau ar y cwestiynau mawr ac wrth fyfyrio ar eu gwaith.
- Cynyddu'r nifer o ddisgyblion sydd yn cyrraedd Lefel 6+ ar ddiwedd CA3 a chau'r bwlch rhwng perfformiad y Bechgyn a'r Merched.

## Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn addysg grefyddol?

Roedd yr ysgolion yn ymfalchïo mewn rhai agweddau megis:

- bod disgyblion ac athrawon yn cyd-drafod cwestiynau sylfaenol sy'n berthnasol i'r thema ac yn eu defnyddio fel ffocws i'w hymchwiliadau dosbarth.
- bod yr ysgol wedi cynllunio cyfleoedd i ddatblygu sgiliau dysgwyr mewn amrywiol gyd-destunau o fewn addysg grefyddol.
- y berthynas dda rhwng yr ysgol a chymunedau crefyddol lleol.
- bod cynrychiolydd o'r corff llywodraethol yn gyfrifol am addysg grefyddol ac yn goruchwylio'r pwnc yn unol â threfn hunan arfarnu'r ysgol.
- portffolio Addysg Grefyddol oedd yn cynnwys samplau o waith sydd wedi'u dadansoddi a'u lefelu.
- y deunyddiau a'r amgylched dysgu da.
- bod addysg grefyddol yn cael amser digonol ar yr amserlen.
- gwybodaeth bynciol da'r athrawon a'u diddordeb yn y maes.
- y cyfleoedd cyson a roddir i ddisgyblion i gyd gyfranogi a chyd berthnasu gydag eraill o fewn gweithgareddau cymdeithasol a drefnir gan yr ysgol, e.e. gwasanaethau Cymorth Cristnogol, Diolchgarwch, Dydd Gŵyl Dewi a'r Nadolig.

Ymhlith yr agweddau fydd yn derbyn sylw yn ystod y ddwy flwyddyn nesaf mae:

- Sicrhau mwy o gyfleoedd i ddisgyblion i ddatrys problemau
- Sicrhau ystod o adnoddau priodol fel y gall disgyblion wneud ymchwil;
- Adolygu'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr abl a thalentog.
- Astudio mwy o grefyddau gwahanol.
- Ymgorffori AG i system dracio newydd yr ysgol.
- Creu portffolio asesu CA3.
- Diwygio cwrs addysg grefyddol statudol CA4.

## Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?

Roedd pob ysgol yn cydymffurfio â'r gofynion statudol.
Roedd yr ysgolion yn ymfalchïo mewn rhai agweddau megis:

- Naws arbennig y sesiwn addoli ar y cyd a'r parch a roddir gan yr holl ddisgyblion.
- Y cyfleoedd rheolaidd a rhoddir i ddisgyblion i baratoi, cyflwyno a chymryd rhan weithredol yn y sesiynau addoli ar y cyd fel eu bod yn teimlo'n rhan o gymdeithas agos a diogel yr ysgol.
- Y cyfleodd rheolaidd a roddir i ddisgyblion i fyfyrio'n ysbrydol a thrafod gwerthoedd a moeseg.
- Cyfraniad gwerthfawr arweinwyr crefyddol lleol;
- Amserlen o sesiynau addoli ar y cyd sy'n seiliedig ar themâu, gwyliau crefyddol, straeon Beiblaidd, ADCDF, gwaith elusennau.

Ymhlith y materion a fydd yn derbyn sylw yn ystod y ddwy flynedd nesaf mae:

- Creu cornel fyfyrio a'i chysylltu â'r addoli ar y cyd.

- Disgyblion i gymryd rhan yn y broses o gynllunio cyfnodau addoli ar y cyd, e.e. trwy ddewis themâu eu hunain.
- Angen cysondeb yn ffurf, trefn ac ansawdd yr addoli ar y cyd sy'n digwydd yn y dosbarthiadau.

## 2.5 Deilliannau mewn addysg grefyddol yn y sector uwchradd

### 2.5.1 Asesiadau athrawon: Addysg Grefyddol CA3

| | D | N | W | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | E | L5+ | Sgôr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Dyffryn Ogwen (43) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 4.7 (2) | 16.3 (7) | 55.8 (24) | 18.6 (8) | 4.7 (2) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 79.1 (34) | 5.02 |
| Ysgol Botwnnog (98) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 2.0 (2) | 16.3 (16) | 29.6 (29) | 43.9 (43) | 8.2 (8) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 81.6 (80) | 5.40 |
| Ysgol Brynrefail (107) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 1.9 (2) | 16.8 (18) | 42.1 (45) | 23.4 (25) | 15.9 (17) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 81.3 (87) | 5.35 |
| Ysgol Dyffryn Nantlle (95) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 4.2 (4) | 16.8 (16) | 45.3 (43) | 24.2 (23) | 9.5 (9) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 78.9 (75) | 5.18 |
| Ysgol Eifionydd (73) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 4.1 (3) | 19.2 (14) | 34.2 (25) | 31.5 (23) | 5.5 (4) | 5.5 (4) | 0.0 (0) | 76.7 (56) | 5.32 |
| Ysgol Y Gader (62) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 22.6 (14) | 48.4 (30) | 25.8 (16) | 3.2 (2) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 77.4 (48) | 5.10 |
| Ysgol Y Moelwyn (70) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 15.7 (11) | 28.6 (20) | 45.7 (32) | 10.0 (7) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 84.3 (59) | 5.50 |
| Ysgol Uwchradd Tywyn (68) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 2.9 (2) | 2.9 (2) | 32.4 (22) | 42.6 (29) | 19.1 (13) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 61.8 (42) | 4.72 |
| Ysgol Y Berwyn (61) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 8.2 (5) | 13.1 (8) | 32.8 (20) | 26.2 (16) | 19.7 (12) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 78.7 (48) | 5.36 |
| Ysgol Ardudwy (0) | NaN (0) | NaN (0) | NaN (0) | NaN (0) | NaN (0) | NaN (0) | NaN (0) | NaN (0) | NaN (0) | NaN (0) | NaN (0) | NaN (0) | NaN (0) | NaN |
| Ysgol Friars (201) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 16.9 (34) | 32.3 (65) | 24.9 (50) | 22.9 (46) | 3.0 (6) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 50.7 (102) | 4.63 |
| Ysgol Tryfan (80) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 3.8 (3) | 11.3 (9) | 21.3 (17) | 38.8 (31) | 25.0 (20) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 85.0 (68) | 5.70 |
| Ysgol Syr Hugh Owen (112) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 1.8 (2) | 8.9 (10) | 35.7 (40) | 37.5 (42) | 16.1 (18) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 89.3 (100) | 5.57 |
| Ysgol Glan y Môr (99) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 9.1 (9) | 19.2 (19) | 40.4 (40) | 17.2 (17) | 14.1 (14) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 71.7 (71) | 5.08 |
| Gwynedd (1169) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.2 (2) | 5.8 (68) | 19.6 (229) | 35.2 (412) | 28.7 (335) | 10.2 (119) | 0.3 (4) | 0.0 (0) | 74.4 (870) | 5.18 |

**Safonau CA3**

Cyflwynir canlyniadau CA3 er wybodaeth yn unig. Cyflwynodd pob adran ond un yng Ngwynedd data CA3 i sylw CYSAG. Salwch hir dymor pennaeth adran oedd yn gyfrifol am fethiant Ysgol Ardudwy i gyflwyno manylion.

Mae adrannau yn dod i farn am gyflawniad disgyblion ar sail gwaith y flwyddyn, tasgau asesu a phrofion mewnol. Nid yw'r disgyblion yn sefyll yr un profion neu'r un tasgau asesu ar draws y sir ac nid yw athrawon yn cael cyfleoedd rheolaidd i safoni gwaith eu disgyblion gydag adrannau eraill. Er hynny mae cyrsiau HMS CYNNAL wedi rhoi cyfle i athrawon pwnc i rannu profiadau ac i gyd-safoni samplau o waith wrth iddynt ymateb i'r Maes Llafur Cytûn newydd. Eleni mae pedair adran yng Ngwynedd wedi cyflwyno portffolios ar gyfer achrediad allanol gan APADGOS. Bydd rhaid i bob adran gyflwyno'u portffolios yn ystod y flwyddyn addysgol 2011-12.

### 2.5.2 Canlyniadau TGAU: Astudiaethau Crefyddol (cwrs llawn)

| 2010 | Nifer yn sefyll | | | % Rhagoriaeth | | | % L2 | | | % L1 | | | Sgôr cyfartalog y pwnc | | | Sgôr cyfartalog holl bynciau | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | |
| Ysgol Botwnnog | 3 | 9 | 12 | 0.0 | 11.1 | 8.3 | 0.0 | 55.6 | 41.7 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 34 | 36 | 36 | 33 | 38 | 37 | (-1) |
| Ysgol Brynrefail | 3 | 4 | 7 | 66.7 | 50.0 | 57.1 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 52 | 46 | 49 | 50 | 45 | 47 | (2) |
| Ysgol Dyffryn Nantlle | 4 | 6 | 10 | 0.0 | 33.3 | 20.0 | 50.0 | 100.0 | 80.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 39 | 47 | 44 | 37 | 45 | 42 | (2) |
| Ysgol Eifionydd | 1 | 10 | 11 | 0.0 | 70.0 | 63.6 | 0.0 | 100.0 | 90.9 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 34 | 50 | 49 | 34 | 43 | 42 | (7) |
| Ysgol Y Gader | 4 | 17 | 21 | 0.0 | 64.7 | 52.4 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 46 | 50 | 49 | 39 | 43 | 42 | (7) |
| Ysgol Y Berwyn | 12 | 17 | 29 | 16.7 | 47.1 | 34.5 | 58.3 | 94.1 | 79.3 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 40 | 49 | 45 | 43 | 47 | 45 | (0) |
| Ysgol Friars | 5 | 9 | 14 | 40.0 | 66.7 | 57.1 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 45 | 50 | 48 | 36 | 41 | 39 | (9) |
| Ysgol Syr Hugh Owen | 3 | 8 | 11 | 66.7 | 75.0 | 72.7 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 52 | 55 | 54 | 49 | 51 | 51 | (4) |
| Ysgol Glan y Môr | 2 | 11 | 13 | 0.0 | 36.4 | 30.8 | 0.0 | 81.8 | 69.2 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 31 | 44 | 42 | 30 | 42 | 40 | (1) |
| 661 | 37 | 91 | 128 | 21.6 | 51.6 | 43.0 | 64.9 | 92.3 | 84.4 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 42 | 48 | 46 | 40 | 44 | 43 | (3) |

Mae'r drefn o adrodd ar ganlyniadau arholiadau allanol wedi newid - defnyddir penawdau gwahanol ar y tablau data (gweler Atodiad 3.6). Mae disgyblion ysgolion uwchradd bellach yn cael cyfleoedd i ddilyn amrediad eang o gyrsiau; rhai'n gyrsiau TGAU traddodiadol ,eraill yn gyrsiau BTEC galwedigaethol. Mae rhai o'r cyrsiau yn gyfwerth a hanner TGAU, eraill yn gyfwerth a ddau TGAU. Mae ysgolion yn ceisio bod yn fwy hyblyg a chaniatáu i ddisgyblion sefyll yr arholiadau ym Mlwyddyn 9, 10, 11, 12 neu 13. Fodd bynnag mae'r data a gyflwynir yma yn cynrychioli'r disgyblion oedd yn 15 oed neu'n hŷn yn Ionawr 2010.

Canlyniadau da iawn.

- 128 o ymgeiswyr o 9 o ysgolion Gwynedd. Amcangyfrifir bod hyn yn tua 9% o'r fintai.
- Mae'r niferoedd yn amrywio o 7 disgybl mewn un ysgol i 29 mewn ysgol arall.
- Llwyddodd 84.4% o'r ymgeiswyr i ennill cymhwyster Lefel 2 gydag 100% yn ennill cymhwyster Lefel 1 . Mae 43% o'r ymgeiswyr wedi ennill gradd A*/A.
- Cyfartaledd sgôr yn y pwnc yn 46 yn ychydig yn uwch na'r sgôr o 43 yn y pynciau eraill. Mae +3 yn cynrychioli tua hanner gradd TGAU.
- Mae mwy o enethod na bechgyn yn dewis yn ysgolion Gwynedd (B 31 : G 91).
- Mae canlyniadau'r genethod yn rhagori ar ganlyniadau'r bechgyn. Mae sgôr cyfartalog y merched yn 48 o'i gymharu â sgôr cyfartalog y bechgyn, 42. Fodd bynnag mae sgôr cyfartalog y bechgyn mewn Astudiaethau Crefyddol (42) yn well na'u sgôr cyfartalog mewn pynciau eraill (40).
- Mae disgyblion Ysgo Friars, Ysgol y Gader ac Ysgol Eifionydd yn perfformio'n sylweddol yn well mewn addysg grefyddol nag yn yr holl bynciau eraill.
- Bydd cyrsiau hyfforddi ac ymweliadau ysgol eleni yn ystyried y cwestiynau canlynol:
  - ➢ *Pam mae disgyblion yn dewis y pwnc? Pam nad ydynt yn dewis y pwnc? Pam mae mwy o enethod na bechgyn yn dewis astudio'r pwnc?*

- ➢ *Sut mae adrannau wedi cefnogi'r disgyblion hynny sydd wedi ennill graddau mewn Astudiaethau Crefyddol sy'n sylweddol uwch na'u graddau mewn pynciau eraill? Beth yw'r gyfrinach?*
- ➢ *Beth gall adrannau eraill ddysgu oddi wrth adrannau addysg grefyddol am y ffordd orau o gefnogi'r bechgyn wrth iddynt baratoi ar yr arholiadau allanol? Pa strategaethau eraill y dylid eu hystyried wrth geisio cau'r bwlch rhwng y genethod a'r bechgyn?*
- ➢ *A yw'r pwnc yn hylaw yn yr ysgol?*

**Canlyniadau TGAU: Astudiaethau Crefyddol (cwrs byr)**

| 2010 | Nifer yn sefyll | | | % Rhagoriaeth | | | % L2 | | | % L1 | | | Sgôr cyfartalog y pwnc | | | Sgôr cyfartalog holl bynciau | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ |
| Ysgol Botwnnog | 3 | 9 | 12 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 17 | 17 | 17 | 33 | 38 | 37 (-19) |
| Ysgol Dyffryn Nantlle | 4 | 6 | 10 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 19 | 25 | 22 | 37 | 45 | 42 (-20) |
| Ysgol Eifionydd | 6 | 19 | 25 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 21 | 25 | 24 | 41 | 45 | 44 (-20) |
| Ysgol Y Moelwyn | 75 | 89 | 164 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 22 | 24 | 23 | 36 | 37 | 37 (-13) |
| Ysgol Y Berwyn | 15 | 23 | 38 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 19 | 23 | 21 | 42 | 45 | 44 (-22) |
| Ysgol Friars | 91 | 90 | 181 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 19 | 21 | 20 | 42 | 40 | 41 (-21) |
| Ysgol Tryfan | 8 | 30 | 38 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 22 | 23 | 23 | 39 | 40 | 40 (-17) |
| Ysgol Glan y Môr | 3 | 10 | 13 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 11 | 22 | 20 | 30 | 43 | 41 (-21) |
| 661 | 205 | 276 | 481 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 20 | 23 | 22 | 39 | 40 | 40 (-18) |

Mae'r drefn o adrodd ar ganlyniadau arholiadau allanol wedi newid - defnyddir penawdau gwahanol ar y tablau data (gweler Atodiad 3.6). . Mae disgyblion ysgolion uwchradd bellach yn cael cyfleoedd i ddilyn amrediad eang o gyrsiau; rhai'n gyrsiau TGAU traddodiadol ,eraill yn gyrsiau BTEC galwedigaethol. Mae rhai o'r cyrsiau yn gyfwerth a hanner TGAU, eraill yn gyfwerth a ddau TGAU. Mae ysgolion yn ceisio bod yn fwy hyblyg a chaniatáu i ddisgyblion sefyll yr arholiadau ym Mlwyddyn 9, 10, 11, 12 neu 13. Fodd bynnag mae'r data a gyflwynir yma yn cynrychioli'r disgyblion oedd yn 15 oed neu'n hŷn yn Ionawr 2010.

Canlyniadau da.

481 o ymgeiswyr o 8 o ysgolion Gwynedd. Amcangyfrifir bod hyn yn tua 36% o'r fintai

- Mae'r niferoedd yn amrywio o 10 disgybl mewn un ysgol i 181 mewn ysgol arall.
- Cyfartaledd sgôr yn y pwnc yn 22 sy'n awgrymu bod yr ymgeiswyr hyn wedi cyrraedd safon C (Lefel 2) neu uwch yn y cwrs byr.
- Mae mwy o enethod na bechgyn yn dewis y pwnc yn ysgolion Gwynedd (B 205 : G 276).
- Mae canlyniadau'r genethod yn rhagori ar ganlyniadau'r bechgyn. Mae sgôr cyfartalog y merched yn 23 o'i gymharu â sgôr cyfartalog y bechgyn, 20. Fodd bynnag mae sgôr cyfartalog y pwnc yn awgrymu nad yw'r ymgeiswyr yn tangyflawni mewn astudiaethau crefyddol.
- Bydd cyrsiau hyfforddi ac ymweliadau ysgol eleni yn ystyried y cwestiynau canlynol:
    - ➢ *Pam mae gymaint o ddisgyblion yn dewis sefyll y pwnc? Pam nad yw pawb yn dewis y pwnc? Pam mae mwy o enethod na bechgyn yn dewis astudio'r pwnc?*
    - ➢ *Sut mae adrannau yn gweinyddu ac addysgu'r pwnc?*

Nid oedd disgyblion o’r ysgolion uwchradd canlynol wedi sefyll arholiadau allanol mewn Astudiaethau Crefyddol eleni.

- Ysgol Dyffryn Ogwen
- Ysgol Uwchradd Tywyn
- Ysgol Ardudwy

**2.5.3 Canlyniadau arholiadau allanol CA5**

**Astudiaethau Crefyddol Uwch Gyfrannol**

| UG | **%A** | | | **%A-C** | | | **%A-E** | | | **Ymgeiswyr** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn | 2010 | 2009 | 2008 | 2010 | 2009 | 2008 | 2010 | 2009 | 2008 | 2010 | 2009 | 2008 |
| Ymgeiswyr | 15 | 5 | 8 | 32 | 28 | 25 | 50 | 47 | 47 | 30 | 47 | 30 |

**Astudiaethau Crefyddol Safon Uwch**

| Safon Uwch | **%A** | | | **%A-C** | | | **%A-E** | | | **Ymgeiswyr** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn | 2010 | 2009 | 2008 | 2010 | 2009 | 2008 | 2010 | 2009 | 2008 | 2010 | 2009 | 2008 |
| Ymgeiswyr | 9 | 7 | 25 | 65 | 71 | 63 | 100 | 100 | 75 | 23 | 14 | 8 |
| Cymru | 21 | 25 | 21 | 79 | 79 | 74 | 97 | 99 | 97 | 1345 | 1224 | 1133 |

## 2.6 Ymateb yr Awdurdod Lleol

Adroddwyd ar ansawdd a datblygiad y ddarpariaeth addysgol yn ysgolion Gwynedd yn ystod y flwyddyn academaidd trwy gyfrwng yr Adroddiad Blynyddol ar y Gwasanaeth Addysg.

**Blaenoriaethau Cynllun Plant a Phobl Ifanc Gwynedd 2008-11**
**Amcan Strategol 2 - Addysg a Phrofiadau Dysgu**
“Sicrhau bod plant a phobl ifanc Gwynedd yn cael mynediad at amrywiaeth o gyfleoedd addysg a dysgu i’w galluogi i gyflawni eu potensial”.

| **NOD STRATEGOL** | **MAES BLAENORIAETH STRATEGOL** |
|---|---|
| 2.1 Galluogi pob plentyn a pherson ifanc i gyflawni eu potensial addysgol llawn | 2.1.1 Darparu’r cyfleoedd addysg, hyfforddiant a sgiliau gorau i bawb |
| 2.2 Cefnogi plant a phobl ifanc gydag anghenion addysgol ychwanegol a phlant a phobl ifanc dan amgylchiadau arbennig | 2.2.1 Cefnogi cynhwysiad llawn dysgwyr gydag anghenion addysgol ychwanegol a phlant a phobl ifanc dan amgylchiadau arbennig |
| 2.3 Darparu ystod eang o wasanaethau cymorth ieuenctid o safon | 2.3.1 Hyrwyddo a chydlynu datblygiadau ym maes gwasanaethau cymorth ieuenctid |

Mae Awdurdod Addysg Gwynedd ac Awdurdod Addysg Môn yn darparu cefnogaeth ariannol i GYNNAL (y gwasanaeth ymgynghorol). Mae CYNNAL yn penodi Ymgynghorydd Dyniaethau, gyda chyfrifioldeb am Addysg Grefyddol, Daearyddiaeth, Hanes, ac Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang er mwyn darparu cefnogaeth gwricwlaidd i ysgolion cynradd ac uwchradd y ddwy sir. Cynigir hefyd secondiad hanner amser (0.5 yn 2010-11) i athro neu athrawes weithio fel athro neu athrawes ymgynghorol.

## 2.6.1 Cefnogaeth y gwasanaeth ymgynghorol

Mae ysgolion cynradd ac uwchradd y sir yn derbyn cefnogaeth gan GYNNAL (y gwasanaeth ymgynghorol). Bydd yr Ymgynghorodd Dyniaethau a'r Athro/Athrawes Ymgynghorol Addysg Grefyddol (rhan amser) yn ymweld ag ysgolion fel rhan o'r rhaglen 'hawl a haeddiant'. Byddant yn cynorthwyo athrawon wrth iddynt gynllunio'u rhaglenni astudio a'u cynlluniau asesu, paratoi gweithgareddau dosbarth a dethol adnoddau dosbarth addas. Mae datblygu medrau meddwl dysgwyr ac asesu ar gyfer dysgu yn flaenoriaeth i nifer o athrawon y sir. Bu sawl adran addysg grefyddol uwchradd eleni yn adnabod ac yn datblygu cyfloed i ddatblygu sgiliau llythrennedd a chyfathrebu eu disgyblion. Mae CYNNAL yn cefnogi ysgolion sy'n paratoi at arolygiad trwy gynorthwyo athrawon ac adrannau i hunan arfarnu safonau mewn addysg grefyddol. Mae cyfraniad yr Athro/Athrawes Ymgynghorol Addysg Grefyddol yn allweddol i rannu arferion da, datblygu gweithgareddau dosbarth symbylol a chynnal athrawon wrth iddynt baratoi at y dyfodol.

**Mrs Leusa Jones– Athrawes Ymgynghorol Addysg Grefyddol**

Penodwyd Mrs Leusa Jones fel athrawes ymgynghorol rhan amser yn Hydref 2009. Bu'n weithgar yn paratoi a chynnal cyrsiau hyfforddiant i athrawon uwchradd y sir a chefnogi adrannau unigol wrth iddynt ymateb i'r maes llafur cytûn newydd ac addasu gweithgareddau dysgu eu disgyblion.

Mae'r Ymgynghorydd Dyniaethau a'r athro/athrawes ymgynghorol yn cyflwyno adroddiad tymhorol i sylw CYSAG. Mae'r cyflwyniadau hyn yn fodd i rannu datblygiadau diweddaraf yn y maes, materion yn ymwneud â phedagogiaeth ac adnoddau, ac amlinelliad o'r gwaith a wneir gydag ysgolion yr AALl. Prif ffocws trafodaethau 2010-11 oedd:

- cefnogi ysgolion wrth iddynt ymateb i'r Maes Llafur Cytûn Lleol a'r drefn hunan arfarnu newydd;
- cyfeirio ysgolion at adnoddau addysgu newydd, e.e. pecyn uwchradd trawsgwricwlaidd ar 'Traed Mewn Cyffion: Cymru a Chaethwasiaeth';
- pecyn addysg grefyddol CA2 enghreifftiol a baratowyd fel cyfraniad yr ymgynghorydd dyniaethau tuag at brosiect addysg Biosffer Dyfi;
- ymateb dysgwyr cynradd i'r thema 'Crefydd yn yr Ardal Leol'. Cafwyd cyfle i ystyried enghreifftiau o waith y dysgwyr ac enghraifft o aseiniad HADA athrawes gynradd oedd wedi dewis testun addysg grefyddol fel ei maes ffocws. Roedd y gwaith yn dangos sut yr oedd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau addysg grefyddol yn ogystal â'u sgiliau cyfathrebu a thrin data;

- ymateb ysgolion Gwynedd i Ŵyl Dathlu Addysg Grefyddol.
- safwe Moodle CYNNAL fel cyfrwng i rannu adnoddau a chanllawiau i athrawon wrth iddynt baratoi gweithgareddau addysg grefyddol.

Bob tymor bydd yr Ymgynghorydd Dyniaethau yn mynychu cyfarfodydd Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol yn ogystal â chyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru. Mae'r cyfarfodydd hyn yn sicrhau fforymau cenedlaethol i drafod materion sy'n ymwneud ag Addysg Grefyddol. Penderfynwyd yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13eg o Hydref 2010 bod yr Ymgynghorydd Dyniaethau yn cael pleidleisio ar ran CYSAG Gwynedd os nad oedd cynrychiolydd yn gallu bod yn bresennol.

### 2.6.2 Rhaglen Hyfforddiant Mewn Swydd Addysg Grefyddol

**Adroddiad ar hyfforddiant mewn swydd 2010-11**

Fel rhan o'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r Awdurdod Addysg mae CYNNAL (y gwasanaeth ymgynghorol) yn darparu rhaglen hyfforddiant mewn swydd ar gyfer athrawon yr Awdurdod. Mae'r Cynllun Strategol Addysg yn cyfeirio at bwysigrwydd y rhaglen hyfforddi fel ffordd o sicrhau bod athrawon yn cael gwybodaeth am ddatblygiadau newydd, rhannu arferion da a chydweithio i ddatblygu strategaethau dysgu ac addysgu a deunyddiau pwrpasol. Anelir at sicrhau bod y rhaglen hyfforddiant yn ymateb i anghenion ysgolion ac athrawon trwy ymgynghori gyda phenaethiaid, athrawon a thiwtoriaid proffesiynol yn yr ysgolion. Cynhelir cyfarfodydd paneli pwnc uwchradd mewn rhai ardaloedd i drafod blaenoriaethau ac i gynnig arweiniad ar y rhaglen hyfforddiant. Yn ogystal â hynny rhoddwyd sylw i flaenoriaethau'r Awdurdod, i sylwadau ESTYN, ac i sylwadau sydd yn ymddangos mewn adroddiadau arolygol.

Mae penaethiaid cynradd ac uwchradd y sir wedi cytuno i gau'r ysgolion am ddau ddiwrnod er mwyn cynnal cyrsiau hyfforddiant ysgol ganolog neu fel consortiwm. Y tiwtoriaid proffesiynol oedd yn gyfrifol am ddewis y cyrsiau ar gyfer yr ysgolion uwchradd a'r penaethiaid oedd yn dewis y cyrsiau ar gyfer yr ysgolion cynradd.

**Cyrsiau Cynradd Ebrill 2010– Mawrth 2011**

| Enw'r cwrs | Nifer o athrawon o Wynedd |
|---|---|
| **Clwstwr – Arfon (Hydref)**<br>Dyniaethau – Asesu ar gyfer dysgu | 19 |
| **Clwstwr – Meirion/Dwyfor (Hydref)**<br>Dyniaethau – Asesu ar gyfer dysgu | 16 |
| **Clwstwr –Arfon (Gwanwyn)**<br>Addysg Grefyddol : Gwirio'r Sgiliau | 14 |
| **Clwstwr – Meirion/Dwyfor (Gwanwyn)**<br>Addysg Grefyddol : Gwirio'r Sgiliau | 13 |
| **HADA** (cwrs Dyniaethau 5 diwrnod oedd yn cynnwys diwrnod o hyfforddiant ar 'Ymateb i ofynion y Maes Llafur Cytûn') | 5 |

**Cyrsiau Uwchradd Ebrill 2010– Mawrth 2011**

| Enw'r Cwrs | Nifer o athrawon o Wynedd |
|---|---|
| **Consortiwm – Arfon (Hydref) :**<br>Anelu at Ragoriaeth | 12 |
| **Consortiwm – Meirion Dwyfor (Hydref) :**<br>Anelu at Ragoriaeth | 5 |
| **Consortiwm – Arfon, Meirion Dwyfor, Môn (Gwanwyn)**<br>Paratoi ymgeiswyr at arholiadau allanol<br>(TGAU Manyleb B) | 17 |
| **Consortiwm - Arfon, Meirion Dwyfor, Môn (Gwanwyn)**<br>Dyniaethau yn y Newyddion<br>Cwrs i athrawon CA3 oedd yn dysgu addysg grefyddol, daearyddiaeth a/neu hanes. Roedd yr hyfforddiant yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau darllen a siarad a gwrando'r dysgwyr. | 1 |

**2.6.3 Hyfforddiant ac ymweliadau arbennig dan nawdd CYSAGau Gwynedd a Môn**

Ni chynhaliwyd cynhadledd HMS dan nawdd CYSAG Gwynedd i athrawon ac aelodau Gwynedd a Môn yn ystod 2010-11.

**2.6.4 Cyrsiau HMS 2010-11**

Cynigiwyd y cyrsiau canlynol i sylw penaethiaid cynradd wrth iddynt lunio'r rhaglen hyfforddiant mewn swydd ar gyfer eu hathrawon:

- Gwneud defnydd effeithiol o'r addoldy lleol er mwyn datblygu sgiliau AG disgyblion.
- Athroniaeth i Blant (Lefel 1) – cwrs dau ddiwrnod – cyfrwng Saesneg
- 'Newid' – thema ar gyfer AG, Daearyddiaeth a Hanes
- 'Dewisiadau a Phenderfyniadau' - thema ar gyfer AG, Daearyddiaeth, Hanes ac ADCDF
- Hunan arfarnu safonau AG, Daearyddiaeth a Hanes
- Gwirio'r portffolio (AG, Daearyddiaeth a Hanes)

Cynigiwyd y cyrsiau canlynol i sylw'r tiwtoriaid proffesiynol uwchradd a'r paneli pwnc wrth iddynt lunio rhaglen hyfforddiant mewn swydd ar gyfer eu hathrawon:

- Agweddau ar ddatblygu llythrennedd o fewn gweithgareddau addysg grefyddol;
- Dod i farn am gyrhaeddiad dysgwyr CA3;
- Addysg grefyddol statudol i ddysgwyr 14+;
- Ymateb i bynciau llosg mewn gwersi addysg grefyddol.

## 2.7 Addysg Grefyddol ac APADGOS

Mae APADGOS wedi gwahodd adrannau uwchradd eleni i gyflwyno portffolios addysg grefyddol er mwyn safoni asesiadau athrawon CA3.  Mae pedair ysgol uwchradd o Wynedd wedi derbyn adborth gan y safonwyr eleni.

Mae APADGOS hefyd yn dosbarthu canllawiau i gynorthwyo athrawon wrth gynllunio ac addysgu rhaglen addysg grefyddol gydlynol i'w disgyblion.  Yn ystod y flwyddyn derbyniodd ysgolion copïau o:

- Addysg grefyddol: Canllawiau ar gyfer CA2 a CA3.
  Defnyddiwyd samplau gan ddisgyblion ac athrawon dwy ysgol o Wynedd er mwyn enghreifftio rhai o'r lefelau cyrhaeddiad.

Gwahoddwyd ysgolion uwchradd Cymru i fod yn rhan o'r prosiect AtGyfnerthu sy'n gweithio'n bennaf i ddatblygu sgiliau athrawon yn y sector uwchradd i ddelio gyda phynciau llosg mewn materion dadleuol mewn Addysg Grefyddol.  Mae'r prosiect yn cynnig adnoddau cefndirol a chefnogaeth mentor i'r ysgolion sy'n cofrestru gyda'r prosiect.

- Mae athrawes addysg grefyddol CA3 Ysgol Syr Hugh Owen yn rhan o'r prosiect eleni 2010-11.

Gwahoddir ymgynghorwyr, athrawon a mudiadau yng Nghymru i gyfrannu erthyglau i gylchgrawn y Ganolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol, sef 'Newyddion Addysg Grefyddol'.  Mae'r cylchgrawn yn gyfrwng hefyd i rannu newyddion o'r Siroedd.  Yn ystod y flwyddyn cyhoeddwyd erthyglau gan athrawon Gwynedd a'r ymgynghorydd dyniaethau.

- 'Defnyddio hetiau de Bono mewn addysg grefyddol' gan Bethan Davies Jones (Ysgol y Gader) a Bethan James (Ymgynghorydd Dyniaethau CYNNAL) (Rhifyn Hydref 2010)
- 'Ysgrifennu anllenyddol mewn addysg grefyddol' gan Bethan Andrews (Ysgol Dyffryn Ogwen) a Bethan James (Ymgynghorydd Dyniaethau CYNNAL) (Rhifyn Haf 2011)

## 2.8 Swyddogaeth CYSAG

### Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd

Nodir yng Nghylchlythyr 10/94 Y Swyddfa Gymreig y dylai'r Awdurdod Addysg weithio gyda'i ChYSAG i gadw llygad ar ddarparu addoli ar y cyd dyddiol ac i ystyried gydag ef unrhyw gamau y gellid eu cymryd i wella darpariaeth o'r fath.

Rhaid i'r addoliad fod "yn gyffredinol Gristnogol ei gymeriad".  Mae'r weithdrefn "penderfynu" yn caniatáu atal y gofynion hyn mewn perthynas â rhai neu'r cyfan o'r disgyblion mewn ysgol lle nad ydynt yn briodol.

Dosbarthwyd copi o 'Arweiniad atodol ar arolygu addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Mehefin 2008) i'r aelodau.

**Penderfyniadau**

Ni chafwyd cais gan unrhyw ysgol am benderfyniad mewn perthynas ag addoli ar y cyd.

## ADRAN 3: ATODIADAU

### 3.1 Gwybodaeth gyffredinol am gyfansoddiad CYSAG

**Sefydlwyd CYSAG gan Bwyllgor Addysg Gwynedd yn 1996 i gynnwys:**

**Cristnogion a Chrefyddau Eraill, sef**
- Yr Eglwys Fethodistaidd
- Undeb Bedyddwyr Cymru
- Eglwys Bresbyteraidd Cymru
- Yr Eglwys yng Nghymru
- Undeb yr Annibynwyr
- Yr Eglwys Gatholig

**Athrawon**, sef,
- Cymdeithas y Prifathrawon (SHA)
- Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
- Cymdeithas yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawon (NASWUT)
- Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT)
- Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr (ATL)
- Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT)

**Aelodau etholedig**

*Mae'r Pwyllgor Addysg wedi cadw'i hawl i enwebu Cadeirydd ar gyfer CYSAG.*

## 3.2 Aelodaeth CYSAG Gwynedd 2010-11

**Cristnogion a Chrefyddau Eraill**

| | | |
|---|---|---|
| Yr Eglwys Fethodistaidd | - | Mr Wyn Myles Meredith |
| Undeb Bedyddwyr Cymru | - | Mrs Ruth Davies |
| Eglwys Bresbyteraidd Cymru | - | Mr Gwyn Hefin Jones |
| Yr Eglwys yng Nghymru | - | Parch Robert Townsend |
| Undeb yr Annibynwyr | - | Mr Cynrig Hughes |
| Yr Eglwys Gatholig | - | Mrs Eirian Bradley Roberts |

**Athrawon**

| | | |
|---|---|---|
| Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL) | - | Mrs Alwen Watkins |
| Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) | - | Mr Noel Dyer |
| Cymdeithas yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau | - | Miss Miriam Williams |
| Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT) | - | Mr Euron Hughes |
| Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr | - | *disgwyl enwebiad* |
| Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon | - | Ms Elisabeth Roberts |

**Aelodau Lleol**

**Y Cynghorwyr**

| | | |
|---|---|---|
| Selwyn Griffiths | } | Plaid Cymru |
| Pat Larsen | } | |
| Huw Edwards **(Cadeirydd)** | } | |
| Dafydd W Roberts | } | Annibynnol |
| Guto Rhys Thomas | } | |
| Aeron Jones | } | Llais Gwynedd |
| Stephen Churchman | } | Rhyddfrydwyr Democrataidd |

**Aelodau Ex-officio**

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor
W Tudor Owen
John Gwilym Jones

**Aelodau Cyfetholedig (dibleidlais)**

- Mr Rheinallt Thomas
- Y Parch Gwyn Rhydderch
- Y Parch Aled Davies

### 3.3 Cyfarfodydd CYSAG 2010-11

Mae dyddiadau'r cyfarfodydd ar gael ymlaen llaw trwy gysylltu â Chlerc CYSAG. Yn ystod 2010 - 2011 cyfarfu CYSAG Gwynedd ar dri achlysur:

13 Hydref 2010
9 Chwefror 2011
29 Mehefin 2011

Trafodwyd y materion canlynol ac ymhelaethir ar rai ohonynt yng nghorff yr adroddiad hwn:

**a) Cyfarfod 13 Hydref 2010**

- Adroddiad blynyddol (drafft) CYSAG Gwynedd 2009/2010
- Safonau CA3 a chanlyniadau Arholiadau TGAU a Safon Uwch 2010
- Arolygiadau ysgolion
- Hunan arfarniadau ysgolion
- Cymdeithas CYSAGau Cymru - cyflwyno papurau o'r cyfarfod a gynhaliwyd yn Wrecsam ar 24 Mehefin 2010
- Gohebiaeth

**b) Cyfarfod 9 Chwefror 2011**

- Monitro Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd
- Cyflwyniad: Addysg Grefyddol ar lawr y dosbarth
- Gwyl Dathlu Addysg Grefyddol 2011
- Adroddiad Blynyddol CYSAG Gwynedd (terfynol) 2009.10
- Cymdeithas CYSAGau Cymru - cyflwyno papurau o'r cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghaerffili ar 26 Tachwedd 2010
- Gohebiaeth

**c) Cyfarfod 29 Mehefin 2011**

- Hunan arfarniadau Ysgolion
- Dathlu Addysg Grefyddol
- Rhaglen Waith y Gwasanaeth Ymgynghorol
- Cymdeithas CYSAGau Cymru - cyflwyno papurau o'r cyfarfod a gynhaliwyd ym Mro Morgannwg ar 2 Mawrth 2010.

**3.3.1** Mae CYSAG Gwynedd wedi ymaelodi â Chymdeithas CYSAGau Cymru ac y mae ei haelodau yn mynychu cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn rheolaidd.

Mynychwyd cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn ystod y flwyddyn gan y cynrychiolwyr canlynol :

- Mr Rheinallt Thomas (aelod o bwyllgor gwaith CYSAGau Cymru)
- Mr Wyn Meredith (CYSAG Gwynedd))

Mynychwyd cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn ystod y flwyddyn gan y sylwebyddion canlynol:

- Miss Bethan James – Ymgynghorydd Dyniaethau

**3.3.2** Darperir cynhaliaeth broffesiynol i GYSAG fel a ganlyn:

Mr Dewi Jones, Pennaeth Gwasanaeth Ysgolion
Mr Ken Robinson, Swyddog Addysg Cynorthwyol sy'n gweithredu fel Clerc CYSAG
Miss Bethan James, Ymgynghorydd y Dyniaethau, sy'n gwasanaethu Gwynedd a Môn fel aelod o'r Cwmni Ymgynghorol, CYNNAL
Mrs Leusa Jones, Athrawes Ymgynghorol Addysg Grefyddol rhan amser.
Mrs Glynda O'Brien, Uned Bwyllgorau, Cyfadran Adnoddau, sy'n cofnodi ac yn gweinyddu CYSAG.

Dylid cyfeirio ymholiadau at Glerc CYSAG, Swyddfa Addysg, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, LL55 1SH.

**3.4 Rhestr o'r sefydliadau a dderbyniodd gopi o adroddiad CYSAG**

Dosberthir copi o'r adroddiad blynyddol i'r canlynol:

Y Pwyllgor Pwnc Addysg, Diwylliant a Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS)
Canolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol Cymru, Ysgol Addysg, Prifysgol Cymru, Bangor
Cymdeithas CYSAGau Cymru
Gwefan Cyngor Sir Gwynedd

## 3.5 Templed CYSAG Gwynedd ar gyfer hunan arfarniad ysgolion o safonau addysg grefyddol

### Rhesymeg

Rheolir Addysg Grefyddol yn lleol gan Gyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol (CYSAG). Mae'n cynnwys tri phwyllgor: cynrychiolwyr prif draddodiadau crefyddol yr ardal, cynrychiolwyr athrawon a chynrychiolwyr yr awdurdod lleol. Prif swyddogaeth CYSAG yw, 'cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig
ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y
bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda'. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1)(a)

Cred **CYSAG Gwynedd** y dylai'r cyngor hwn fod yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol gan obeithio y bydd y canllawiau sy'n dilyn yn galluogi penaethiaid i gefnogi CYSAG yn ei dyletswyddau.

Yn y gorffennol, mae **CYSAG Gwynedd** wedi monitro addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- adolygu adroddiadau arolygu ESTYN;
- dadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- cael adroddiadau rheolaidd gan gynrychiolwyr y gwasanaeth ysgolion/ymgynghorol lleol;
- gwahodd athrawon a phenaethiaid i rannu enghreifftiau o arferion da gydag aelodau CYSAG.

Ni fydd Fframwaith Arolygu newydd ESTYN bellach yn cyfeirio'n benodol at Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd. Mae **CYSAG Gwynedd** felly yn awyddus i fanteisio ar y cyfundrefnau a'r arferion a ddefnyddir ar hyn o bryd gan benaethiaid ac athrawon wrth iddynt baratoi at y Fframwaith Arolygu newydd. Yng nghyfarfod **CYSAG Gwynedd** ar 13 Hydref 2010, penderfynwyd y byddai CYSAG yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunan arfarniad o Addysg Grefyddol, addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion gyda'r aelodau.

Gofynnir yn garedig i ysgolion cynradd ac uwchradd gyflwyno crynodeb o hunan arfarniad yr ysgol i sylw clerc CYSAG Gwynedd yn ystod y flwyddyn pan fydd ESTYN yn arolygu'r ysgol.

**Manylion cyswllt:** kenrobinson@gwynedd.gov.uk (01286 679888)
**Enw (Clerc CYSAG):** **Ken Robinson**
**Cyfeiriad:** Swyddfa Addysg Ardal Arfon, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH

Ers 2008, mae CYSAGau ar draws Cymru wedi mabwysiadu neu addasu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (APADGOS, 2008) fel eu maes llafur cytûn lleol. Mae aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol wedi croesawu'r cysondeb hwn ar draws Cymru gan eu bod wedi gallu cydweithio i baratoi canllawiau cyffredin i ysgolion a ChYSAGau. Mae amryw o GYSAGau yng Nghymru wedi mabwysiadu cyfundrefn neu broses debyg i'r un a amlinellir yn y ddogfen hon.

**Enw'r Ysgol:**

| Addysg Grefyddol | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?** | | | | | | | |
| • Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.<br>• Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad. | | | | | | | |
| **Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol | | | | | | | |
| **Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu** | | | | | | | |
| **Materion i gael sylw** | | | | | | | |
| **Rhagorol** | | **Da** | | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol? | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| • Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.<br>• Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.<br>• Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.<br>• Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol). | | | | | | | |
| **Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol | | | | | | | |
| **Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau** | | | | | | | |
| **Materion i gael sylw** | | | | | | | |
| **Rhagorol** | | **Da** | | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |

| Addoli ar y Cyd | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?** | | | | | | | |
| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | | | | **Ydy** | | **Nac ydy** | |
| **Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94) | | | | | | | |
| **Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd** | | | | | | | |
| **Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd** | | | | | | | |
| **Rhagorol** | | **Da** | | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |

Llofnod: (Pennaeth)
Dyddiad:

## 3.6 Canllawiau ar gyfer dadansoddi tablau data arholiadau allanol

**Beth mae'r tabl TGAU (cwrs llawn) yn dangos?**

| | |
|---|---|
| Nifer yn sefyll<br>B \| G \| Σ | Dyma'r nifer o fechgyn (B) a genethod (G) sydd wedi dewis dilyn cwrs TGAU llawn mewn Astudiaethau Crefyddol ac wedi sefyll yr arholiad eleni. Mae'r symbol Σ yn dangos cyfanswm o'r ymgeiswyr. |
| % Rhagoriaeth<br>B \| G \| Σ | Dyma'r ganran (%) o fechgyn (B) a genethod (G) sydd wedi ennill A* neu A mewn Astudiaethau Crefyddol eleni. Mae'r symbol Σ yn dangos cyfanswm o'r ymgeiswyr. |
| % L2<br>B \| G \| Σ | Mae'r amrediad o achrediadau sydd ar gael i ddisgyblion yn golygu bod angen ffordd o gymharu safonau'r cymhwyster. Mae cymhwyster Lefel 2 yn cyfateb i raddau A* i C mewn cyrsiau TGAU. Mae'r data yma felly yn dangos y ganran (%) o fechgyn (B) a genethod (G) sydd wedi ennill gradd A* i C mewn Astudiaethau Crefyddol eleni. Mae'r symbol Σ yn dangos cyfanswm o'r ymgeiswyr |
| % L1<br>B \| G \| Σ | Mae'r amrediad o achrediadau sydd ar gael i ddisgyblion yn golygu bod angen ffordd o gymharu safonau'r cymhwyster. Mae cymhwyster Lefel 1 yn cyfateb i raddau A* i G mewn cyrsiau TGAU. Mae'r data yma felly yn dangos y ganran (%) o fechgyn (B) a genethod (G) sydd wedi ennill gradd A* i G mewn Astudiaethau Crefyddol eleni. Mae'r symbol Σ yn dangos cyfanswm o'r ymgeiswyr |
| Sgôr cyfartalog y pwnc<br>B \| G \| Σ | Mae pob gradd yn gyfwerth â 6 phwynt. Mae gradd A* felly yn gyfwerth a 58 pwynt a gradd C yn gyfwerth â 40 phwynt. Mae cyfanswm pwyntiau'r disgyblion yn cael ei rannu (⍰) gan y nifer o ddisgyblion sydd wedi sefyll y pwnc yn yr ysgol. Mae'r data yma felly yn dangos sgôr cyfartalog y bechgyn a'r genethod mewn Astudiaethau Crefyddol yn yr ysgol ac yn y sir. Mae'r symbol Σ yn cynrychioli'r cyfanswm o'r ymgeiswyr |
| Sgôr cyfartalog holl bynciau<br>B \| G \| Σ | Mae pob gradd yn gyfwerth â 6 phwynt. Mae gradd A* felly yn gyfwerth a 58 pwynt a gradd C yn gyfwerth â 40 phwynt. Mae **sgôr cyfartalog holl bynciau** yn dangos sut y mae'r grŵp yma o ddisgyblion (y rhai sydd wedi sefyll Astudiaethau Crefyddol yn yr ysgol) wedi perfformio yn eu holl bynciau. Fodd bynnag nid yw'r golofn hon yn dangos y darlun llawn - efallai bydd rhai pynciau yn gyfwerth a 2 TGAU tra bod Astudiaethau Crefyddol yn gyfwerth ag 1 TGAU. |

**Beth mae'r tabl TGAU (cwrs byr) yn dangos?**

| | |
|---|---|
| Nifer yn sefyll<br>B \| G \| Σ | Dyma'r nifer o fechgyn (B) a genethod (G) sydd wedi dewis dilyn cwrs TGAU byr mewn Astudiaethau Crefyddol ac wedi sefyll yr arholiad eleni. Mae'r symbol Σ yn dangos cyfanswm o'r ymgeiswyr. |
| % Rhagoriaeth<br>B \| G \| Σ<br>% L2<br>B \| G \| Σ<br>% L1<br>B \| G \| Σ | Mae'r amrediad o achrediadau sydd ar gael i ddisgyblion yn golygu bod angen ffordd o gymharu safonau'r cymhwyster. Mae cyrsiau byr yn cyfrannu 10% o bwyntiau i'r trothwy Lefel 1 a Lefel 2. 29 pwynt yw gwerth A* mewn cwrs byr. |
| Sgôr cyfartalog y pwnc<br>B \| G \| Σ | Mae pob gradd yn gyfwerth â 6 phwynt. Mae gradd A* (cwrs byr) felly yn gyfwerth a 29 pwynt a gradd C yn gyfwerth â 11 pwynt. Mae cyfanswm pwyntiau'r disgyblion yn cael ei rannu (÷) gan y nifer o ddisgyblion sydd wedi sefyll y pwnc yn yr ysgol. Mae'r data yma felly yn dangos sgôr cyfartalog y bechgyn, genethod a chyfanswm y grŵp dysgu mewn Astudiaethau Crefyddol yn yr ysgol ac yn y sir. |
| Sgôr cyfartalog holl bynciau<br>B \| G \| Σ | Mae pob gradd yn gyfwerth â 6 phwynt. Mae gradd A* felly ar gyfer cwrs llawn yn gyfwerth a 58 pwynt a gradd C yn gyfwerth â 40 phwynt. Mae Gradd A* ar gyfer cwrs byr yn gyfwerth a 29 pwynt a gradd C yn gyfwerth â 11 pwynt. Mae **sgôr cyfartalog holl bynciau** yn dangos sut y mae'r grŵp yma o ddisgyblion (y rhai sydd wedi sefyll Astudiaethau Crefyddol yn yr ysgol) wedi perfformio yn eu holl bynciau. Fodd bynnag nid yw'r golofn hon yn dangos y darlun llawn - efallai bydd rhai pynciau yn gyfwerth a 2 TGAU tra bod Astudiaethau Crefyddol (cwrs byr) yn gyfwerth â hanner TGAU. Mae cyrsiau byr yn brin iawn ac felly mae eu gwerth yn cael ei foddi gan y cyrsiau llawn a gan y cyrsiau hynny sydd yn werth mwy nag un TGAU llawn. |